CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD HYDREF 21, 2025

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Brithdir
Nos Fawrth, Hydref 21, 2025 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Gerallt Griffith (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Llion Williams, Robin Jones. Hefyd Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, Meurig Ashton, Aaron Roberts, Karen Goswell.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Gerallt yn datgan diddordeb ynglŷn â thaliad i Guthrie Jones & Jones. Eitem 8.b.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 16, 2025

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 16, 2025

Eitem 5. Eitem 5. Eitem 6.b:
Cafwyd wybod gan Wynnstay (Agricultural Supplies) Ltd y gost am y 4 mainc yn £1,752 ac yn cael eu hanfon yno 6-8 wythnos.
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau (17/9/2025).

Anfonwyd (17/9/2025) neges i Panel Warehouse am anfoneb i brynnu 2 hysbysfwrdd.
Anfonwyd y neges i'r aelodau.
Derbyniwyd llythyr (17/9/2025) oddi wrth Panel Warehouse yn gofyn am fwy o wybodaeth.
Anfonwyd y neges i'r aelodau.
Maent angen gwybod pa liw sydd yr hysbysfwrdd fod – Golden Oak neu Dark Brown. Dewiswyd Dark Oak; bydd yn dangos llai o faw.
Derbyniwyd (22/9/2025) manylion a bil oddi wrth Panel Warehouse tuag at y gwaith.
Anfonwyd (23/9/2025) y wybodaeth i'r aelodau.
Cafwyd gwybod (25/9/2025) gan Panel Warehouse bydd yr hysbysfyrddau ar gael mewn 6 wythnos. Ni chafwyd gwrthwynebiad gan yr aelodau i barhau â'r gwaith.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD HYDREF 21, 2025

Gyda'r dyddiad cyfarfod nesaf 4 wythnos i ffwrdd a dyddiad cau y grant ar 31ain o Ragfyr, 2025 anfonwyd siec i Panel Warehouse at daliad yr hysbysfyrddau (26/9/2025) a thalwyd Wynnstay (Agricultural Supplies) Ltd am y meinciau (27/9/2025).

Derbyniwyd (2/10/2025) neges oddi wrth Panel Warehouse bydd yr hysbysfyrddau yn cael eu hanfon yn wythnos 3ydd Tachwedd.
Anfonwyd y neges i'r aelodau.

Cafwyd wybod gan Swyddog Adfywio Trefi ynglŷn â grant 'Gwynedd Ni' mae angen i'r gwaith a'r holl wariant fod wedi ei gwblhau erbyn y 31ain o Ragfyr, 2025. Os mae problem fawr gyda'r dyddiad yma mae rhaid rhoi gwybod iddynt cyn gynted â phosib.
Anfonwyd (19/9/2025) am 6 sticer logo SPF a Chyngor Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr (24/9/2025) oddi wrth Adra yn rhoi gwybod maent yn caniatau gosod y fainc yn Brithdir a rhoi hysbysfwrdd newydd yn lle yr hen un yn Rhydymain.
Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau gyda nodyn yn atgoffa mai nhw bydd yn gwneud y gwaith o osod yr hysbysfyrddau a'r meinciau, a gofynwyd iddynt os maent yn awyddus mynd ymlaen â'r holl waith..
Derbyniwyd (24/9/2025) ateb gan bedwar aelod yn rhoi gwybod maent yn fodlon mynd ymlaen â'r gwaith; ni chafwyd gwrthwynebiad i'r gwaith gan weddill yr aelodau.

Anfonwyd (26/9/2025) llythyr i'r aelodau yn rhoi gwybod mae archebu hysbysfyrddau a meinciau wedi ei gwblhau:
Hysbysfwrdd yn Brithdir - ei osod ar wal y Neuadd wrth ymyl y diffibriliwr
Hysbysfwrdd yn Rhydymain - ei osod yn lle yr un bresennol.
Mainc - ei osod yn Top Torrent
Mainc - ei osod rhwng bin a phostyn 'hydrant' ar dir Hengaer.
Mainc - ei osod wrth Neuadd Llanfachreth
Mainc - ei osod wrth Neuadd Rhydymain.
Bydd angen gosod sticer logo SPF a Chyngor Gwynedd ar y dodrefn.
Mae'r aelodau wedi cytuuno mai nhw fydd yn gwneud y gwaith o'u gosod yn eu lle.
Mae rhaid cwblhau'r gwaith cyn diwedd mis Rhagfyr.
Bydd yr hysbysfyrddau yn cael eu hanfon mewn tua 6 wythnos.

Anfonwyd (10/10/2025) i Swyddog Adfywio Trefi ynglŷn â grant 'Gwynedd Ni' llythyr gyda chopiau o Invoice am yr hysbysfyrddau gyda llythyr yn rhoi gwybod mae taliad wedi ei wneud, a Receipt am y meinciau, ac yn rhoi gwybod bydd y gwaith wedi ei gwblhau mis nesaf.
Llythyr ateb (13/10/2025) yn diolch am y wybodaeth ac angen datganiad banc fel tystiolaeth bod yr arian wedi cael ei roi yn ein banc. Mi fydd £728.54 yn weddill i wario wedi'r uchod ei brosesu.
Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.
Anfonwyd (13/10/2025) y datganiad banc i'r Swyddog.

Eitem 10.c. Cafodd y neges ei anfon ymlaen i Adran Draffig, Caernarfon (19/9/2025).

Eitem 6.d. Llythyr (24/9/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y Gynhadledd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi ei ganslo oherwydd diffyg niferoedd. Bydd trefniadau arall yn cael ei wneud ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Eitem 10.ch. Llythyr ateb (30/9/2025) oddi wrth Uwch Beiriannydd Golau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae trefniadau yn cael ei wneud i osod lamp wrth Neuadd Rhydymain.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (3/10/2025) oddi wrth Emlyn yn rhoi gwybod mae'r gwaith wedi cael ei wneud ac wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn y nos.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/9/2-25) oddi wrth Comisiwn Democratiaeth Ffiniau Cymru yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (24/9/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant at Medi – Rhagfyr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (3/10/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Blynyddol a Chwarterol Pwyllgor Ardal Meirionydd ar 21/10/2025 am 7.00yh ar Zoom.. Amgáu mae agenda, cofnodion, ffurflen i enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (3/10/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd rybudd cau ffordd o Goed y Moch i'r gyffordd i'r gogledd o Fryn Blew, Llanfachreth ar 13/10/2025. Bydd y gwaith o ailwynebu yn cael ei wneud o fewn 3 diwrnod.

d. Llythyr (16/10/2025) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau ym Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwahoddiad i fynychu cyfarfod Adfywio Ardal Ni, Dolgellau bydd yn cael ei gynnal yn Coleg Meirion Dwyfor am 6.00yh ar 20/10/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Derbyniwyd adroddiad gan Delyth am y cyfarfod.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (16/9/2025) yn rhoi gwybodaeth ar Gwŷl Fach Eryri fydd yn cael ei gynnal yn Tŷ Siams, Dolgellau ar 27/9/2025 am 10yb-4yp i drafod dyfodol Eryri.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/9/2025: £1,199.30.
Balans yn y banc ar 29/9/2025: £13,919.26. Cafwyd wybod gan fanc HSBC ni fyddant o hyn ymlaen codi tâl misol ar ein cyfrif. Roedd y taliad tua £6 y mis.

b. Llythyr (13/10/2025) oddi wrth Guthrie Jones & Jones ynglŷn â chofrestru rhan o dir lle parcio ac estyniad / llwybr i'r Neuadd Bentref Llanfachreth. Mae'r Tir Cofrestru yn gwrthod cofrestru'r tir.
Amgáu mae bil am £1,039.00 tuag at y gost i ddelio gyda'r mater.

Penderfynwyd talu'r bil a'r arian yn dod o Account Rhif 61402277.

9. Archwilio

10. Materion yr Aelodau

a. Anfonwyd cais (21/10/2025) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd iddynt drwsio lamp golau stryd sydd ar gyfer grisiau i eglwys Llanfachreth. Mater codwyd gan Gerallt.

b. Mae'r Clerc wedi cael gwybod gan gerddwr Llwybr Cynwch (Precipice Walk) bod darnau o'r llwybr wedi dirywio ac yn beryglus i gerddwyr yn enwedig lle mae craig wedi dod i'r golwg.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i roi sylw ar y mater.

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (17/9/2025) oddi wrth Rheolwr Ardal Gogledd Cymru yn rhoi gwybod bydd cynllun tuag at Bont Rhydymain yn cael ei wneud flwyddyn hon a gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf.

b. Llythyr (25/9/2025) oddi wrth Juliet yn atgoffa am yr angen am bin halen yn Bryncoedifor. Anfonwyd llythyr (25/9/2025) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn gofyn oes datblygiad rhoi bin halen yn y lleoliad. Gwrthodwyd bin halen wrth Esgairgawr.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd i roi bin hael wrth ymyl Gernant, Drwsynant. Mae'r lleoliad yn beryglus ac enwedig yn ystod rhew ac eira. Gofynnwyd am y bin ddwywaith ar ddechrau'r flwyddyn ond ni chafwyd un ac ni chafwyd rheswm pam. Mae Cyng. Delyth Lloyd Griffiths hefyd wedi bod mewn cysylltiad â Priffyrdd am y bin halen.

c. Llythyr (14/10/2025) oddi wrth Cydlynydd Prosiect Perthyn, Caerdydd yn cynnwys manylion grant sydd ar gael i grwpiau cymunedol.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Mae yr Afon Wnion wedi cael ei glanhau a'i ail gyfeirio cyn i lifogydd y gaeaf fod yn broblem eto. Yr wyf yn gobeithio y bydd dim llifogydd yn mynd i mewn i dai etholwyr eto.

d. Bws Fflecsi wedi ei gyflwyno i Llanelltyd ar fy nghais. Dwi wedi rhoi gwybod i drigolion sydd yn defnyddio y bws yn rheolaidd. Y Cyngor Cymuned am roi cymorth efo hysbysebu y wasanaeth. Mari am wneud poster ar gyfer lleoliadau a hefyd Llygad y Dydd.

dd. Coed y Brenin – rhoddwyd adroddiad am gais Caru Coed y Brenin gan Seimon. Mae'r tendr yn cael ei agor gan Cyfoeth Naturiol Cymru mis nesaf ac yn cau ym Mis Ebrill 2025. Bydd CCYB yn gwneud cais am redeg y ganolfan.

e. Parc Eryri - Bydd cais i godi 15 o dai marchnad agored yn Uwch y Maes Dolgellau gerbron y Pwyllgor Cynllunio yfory.

f Datblygiad Tai Llanfachreth – mae pensaer wedi ei benodi a thacluso'r safle wedi ei wneud.

ff. Nannau - nid yw y stad wedi ei werthu eto er bod diddordeb gan gonsortiwm byd natur o bosib.

g. Rwyf wedi bod yn annog stad y Nannau i gymryd cyfrifoldeb ac i dorri coed sydd ddim yn ddiogel ar yr ystâd. Rwyf wedi cysylltu â Ffarmers Marts a Cwmni Baileys i ddarganfod pwy sydd yn rheoli'r stad ar hyn o bryd. Nid oes ateb pendant wedi dod er i Elin o Ffarmers Marts ddweud eu bod nhw yn gyfrifol am gartrefi ar yr ystâd a Baileys yn gyfrifol am dir a materion busnes .

h. Bu i mi fynychu y sgwrs gan Elin William adran grantiau Gwynedd 20/10/25 yn Nolgellau lle y cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am grantiau yn yr ardal.

Llofnod: Dyddiad: